**Subordinate Legislation Committee**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Tachwedd 2009

Annwyl Syr/Madam

**Ymgynghoriadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Mae Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i ymgymryd â dau ddarn o waith gwahanol:

1. Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys yr Eithriadau i Faterion
2. Monitro canlyniadau adroddiadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar Offerynnau Statudol

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau wrth iddo ymchwilio i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r Eithriadau i Faterion. Gallwch weld mwy o fanylion am yr adolygiad hwn yn atodiad 1.

Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at yr alwad am dystiolaeth ar gyfer ein hail adolygiad, a roddwyd fis Hydref. Ceir manylion am yr adolygiad o Adroddiadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar Offerynnau Statudol yma:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-legislation-dissolved/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2.htm

Os hoffech ymateb yn electronig, y cyfeiriad e-bost yw:
legislation.committee@wales.gsi.gov.uk

Fel arall, anfonwch eich ymateb ysgrifenedig at:
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi ystyried y canlynol:

- dylai eich ymateb ymdrin â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor. Defnyddiwch gyfeirnod i'ch ymateb, gan nodi'r teitlau yr ydych yn ymateb iddynt yn glir;
- gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- fel arfer, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trefnu bod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod hefyd gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd Pwyllgor;

Ffôn / Tel: 029 2089 8120
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail: legislation.committee@wales.gsi.gov.uk

- **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth ynghyd â'r rhesymau dros hyn.** Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud hyn, dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd y Pwyllgor yn rhoi'r un pwyslais ar y dystiolaeth pan fydd yn ei hystyried. Dylech hefyd fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd y wybodaeth a roddwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, yn cael ei chyhoeddi neu'i datgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Dylech sicrhau bod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn 30 Rhagfyr 2009. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymatebion sy'n ein cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Steve George, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8120 neu Olga Lewis, Dirprwy Glerc y Pwyllgor ar 029 2089 8155.

Yn gywir

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Ffôn / Tel: 029 2089 8120
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislation.committee@wales.gsi.gov.uk

**Atodiad 1**

**Datblygiad Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac Eithriadau i Faterion**

**Cylch gwaith y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried sut y mae Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn datblygu, yn enwedig yr Eithriadau i Faterion, a hynny o dan Reol Sefydlog 15.6(v): 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

**Cwmpas yr ymchwiliad**

Bydd ymchwiliad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried:

- y dull o ddrafftio Materion Atodlen 5 yn Neddf Llywodraeth Cymru, yn enwedig defnyddio "eithriadau penodol a chyffredinol" a'r rhesymau dros newid y dull hwn;

- goblygiadau hyn ar gyfer datblygiad "Cyfansoddiad Cymru" a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad.

Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn arwain at:
Argymhellion ar gyfer gwella'r dull o ddrafftio Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a gwella eglurder Atodlen 5.

**Cefndir – Craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

Mae'r meysydd y mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ynddynt ar hyn o bryd wedi'u nodi yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[1]. Gellir gweld cyfres o Nodiadau Tracio Pwerau'r Cynulliad, sy'n dangos cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad, ynghyd â nodiadau sy'n tracio ychwanegiadau at Atodlen 5 (ychwanegiadau a gymeradwywyd ac ychwanegiadau arfaethedig) yn fan hyn: Nodiadau Tracio Pwerau'r Cynulliad[2].

Yn ystod y gwaith craffu diweddar ar y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch gofalwyr a'r amgylchedd, mae dull newydd o ymdrin ag eithriadau i faterion wedi datblygu, ynghyd â therminoleg newydd i gyd-fynd â hynny. Caiff eithriadau bellach eu dosbarthu fel a ganlyn:

– **eithriadau penodol:** mae'r rhain yn ymwneud â mater penodol neu faterion sy'n rhan o faes penodol yn unig (ac yn ymddangos yn Rhan 1 (Materion) o Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

– **eithriadau cyffredinol:** mae'r rhain yn berthnasol i bob maes (ac yn ymddangos yn Rhan 2 (Cyfyngiadau cyffredinol) o Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

[1] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-documents/legislation_fields/schedule-5.htm
[2] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-documents/legislation_fields.htm

Ffôn / Tel: 029 2089 8120
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislation.committee@wales.gsi.gov.uk

Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi wedi mynegi pryderon ynglŷn â rhai o nodweddion y dull newydd hwn o ymdrin ag eithriadau, yn enwedig gan fod y Gorchymyn ynghylch gofalwyr a'r Gorchymyn ynghylch diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff ill dau'n cynnwys eithriadau "cyffredinol" sy'n fwy perthnasol i feysydd ar wahân i'r meysydd yr ychwanegir materion atynt gan y Gorchmynion. Ar ôl i'r Pwyllgor Cyfansoddiad gyhoeddi adroddiad beirniadol,[3] rhannwyd y Gorchymyn gwreiddiol ynghylch gofalwyr yn ddau Orchymyn ar wahân, y naill yn ymdrin â gofalwyr[4] a'r llall yn ymdrin ag eithriadau i faterion[5]. Mae'r Cynulliad a dau dŷ Senedd y DU wedi cymeradwyo'r fersiynau drafft o'r ddau Orchymyn, ac maent yn aros i gael eu gwneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar hyn o bryd.

Bu Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 yn trafod eithriadau cyffredinol mewn mwy o fanylder wrth edrych ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch yr amgylchedd[6], gan gyhoeddi adroddiad ar hynny[7]. Yn fras:

i) roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylid rhoi cymhwysedd eang i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y Gorchymyn arfaethedig diwygiedig ynghylch yr amgylchedd, ond mynegodd amheuaeth ynglŷn â'r modd yr oedd nifer fawr o eithriadau penodol a chyffredinol yn cyfyngu ar y cymhwysedd hwn;

ii) argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog edrych ar sut y gellid symleiddio'r Gorchymyn arfaethedig, ac awgrymwyd sawl ffordd o gyflawni hyn;

iii) argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael gwared ar yr eithriadau cyffredinol mewn tri maes gan nad oedd unrhyw faterion wedi'u cynnwys yn y meysydd hynny. Oherwydd hynny, nid oedd unrhyw faterion y gallai'r eithriadau fod yn berthnasol iddynt;

iv) mynegodd y Pwyllgor rai pryderon ynglŷn â chymhlethdod y Gorchymyn arfaethedig diwygiedig ynghylch yr amgylchedd, a phryderon mwy cyffredinol ynglŷn â chymhlethdod cynyddol Atodlen 5 i Ddeddf 2006 wrth iddi ddatblygu (gan adleisio barn Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi);

v) cyflwynodd y Pwyllgor argymhellion cyffredinol yn gysylltiedig â'r broses o graffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi cyflwyno adroddiad[8] ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch yr Amgylchedd, gan ddatgan: 'The Constitution Committee considers LCO 8, taken in the round, to be perilously close to the borderline of what is constitutionally acceptable'. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at derm arall, 'carve outs', sef eithriadau i eithriadau.

## Eich barn chi

---

3 http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldselect/ldconst/105/105.pdf
4 http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=133005&ds=6/2009
5 http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=133007&ds=6/2009
6 http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid/lco-ld7517-e.pdf?langoption=3&ttl=LCO-LD7517%20-%20%20The%20National%20Assembly%20for%20Wales%20%28Legislative%20Competence%29%20%28Environment%29
7 http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld7575-e.pdf
8 http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldselect/ldconst/159/159.pdf

Ffôn / Tel: 029 2089 8120
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislation.committee@wales.gsi.gov.uk

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn i gynorthwyo'r adolygiad hwn. Yn arbennig, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau am y canlynol:

- y dull o ddatblygu Atodlen 5 ac, yn enwedig, drafftio eithriadau i faterion;
- manteision ac anfanteision defnyddio "eithriadau cyffredinol" yn hytrach nag "eithriadau penodol" yn Atodlen 5;
- sut y mae datblygiad Atodlen 5 yn effeithio ar eich dealltwriaeth chi, a dealltwriaeth y cyhoedd, o ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad;
- yr effaith a gaiff y newidiadau i Atodlen 5 ar eich gallu i gyflwyno sylwadau ar gynigion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'ch gwaith.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn gallu craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol unigol, ac oherwydd hyn, ni fydd yr adolygiad hwn yn ystyried cynnwys Gorchmynion unigol. Gwnewch yn siŵr nad yw'ch ymateb yn nodi eich pryderon am feysydd pwnc arbennig. Yn hytrach, dylech drafod y newidiadau i Atodlen 5 yn unig.

Ffôn / Tel: 029 2089 8120
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislation.committee@wales.gsi.gov.uk